TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Cynllun Datblygu Lleol Torfaen a Fabwysiadwyd (hyd 2021)

## Canllawiau Cynllunio Atodol

*This document is available in English*
*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*







# Canllaw Dylunio Blaen Siopau Traddodiadol

## Diweddarwyd Chwefror 2024

Mae gwybodaeth bellach ar gael trwy gysylltu â:

Polisi Cynllunio
Economi a'r Amgylchedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

Ffôn: 01633 648039
Ebost: ldp@torfaen.gov.uk

## Rhagymadrodd

Cyhoeddwyd y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn wreiddiol ym 1992 fel y 'Canllaw Dylunio Blaen Siopau' yn bennaf i fod yn sail ar gyfer penderfynu ar grantiau gwella a chaniatâd cynllunio cysylltiedig o fewn Ardaloedd Adnewyddu Masnachol Blaenafon a Phont-y-pŵl ar y pryd.  Cawsant eu rhestru fel y CCA oedd yn bodoli ar y pryd yn Atodiad 2 y CDLl a fabwysiadwyd ar gyfer Torfaen ym mis Rhagfyr 2013, a hynny'n destun adolygiad.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw ar 27 Chwefror 2024, pan benderfynodd y Cyngor:-

*"ailenwi'r CCA 'Canllaw Dylunio Blaen Siopau' yn 'Ganllaw Dylunio Blaen Siopau Traddodiadol' a newid y geiriad o fewn y CCA i fod yn berthnasol i ardaloedd neu safleoedd lle byddai blaenau siopau traddodiadol yn adlewyrchu cyd-destun yr ardal, yn cynnwys Blaenafon a Phont-y-pŵl, cymdogaeth fel Abersychan a Hen Gwmbrân, a siopau lleol; ond nid Canol Tref Cwmbrân…,"*

Nododd y Cyngor hefyd y byddai'r ddogfen yn *"cael ei ailgyhoeddi mewn fformat digidol a'i diweddaru maes o law"*; i greu CCA 'Dyluniad Blaenau Siopau, Diogelwch a Hysbysebion'; a fydd hefyd yn cynnwys Canol Tref Cwmbrân sy'n fwy modern, lle dylai cynigion ymateb i gymeriad arbennig y Dref Newydd.

Tra bod y CCA gwreiddiol yn rhagflaenu Cynllun Lleol Torfaen (2013), ystyrir bod y CCA newydd hwn yn atodol i Bolisïau'r CDLl S4: Creu Lleoedd / Dylunio Da, BW1: Polisi Cyffredinol - Cynigion Datblygu, RLT1: Ffiniau Canol Trefi, RLT7: Blaenau Eilaidd, ac RLT8: Canolfannau Siopa Lleol ac mewn Cymdogaethau.  Nodir hefyd nad yw'r CCA yn debygol o fod wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ond mae'r cyngor dylunio yn arfer safonol ledled y DU.

## Cyflwyniad

Cymeriad Canol Trefi, Cymdogaethau Lleol a siopau lleol yw pryd a gwedd blaenau'r siopau. Mae ansawdd gweledol blaenau'r adeiladau yn effeithio ar fasnach, ac yn ei dro gall disodli'r blaenau siopau anhraddodiadol i greu dyluniad mwy priodol, gael effaith fuddiol ar yr adeilad unigol a chanol y dref yn gyffredinol.

Mae'r myrdd o adeiladau hŷn yng nghanol y trefi, yn golygu bod y canllaw hwn yn seiliedig ar arddull draddodiadol y blaenau siopau sy'n gysylltiedig â'r adeiladau hyn. Er nad oes un dyluniad yn dderbyniol ym mhob achos; mae'r blaenau traddodiadol yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd blaenau siopau anhraddodiadol o ddyluniad diddorol neu natur arloesol yn cael eu hystyried yn ôl yr ystyriaethau dylunio a amlinellir isod.

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio a rheoleiddio adeiladu i newid neu ddisodli blaenau siopau. Mae codi arwyddion sydd wedi eu goleuo neu arwyddion mawr yn galw am ganiatâd hysbyseb. Yn ogystal â hyn, mae deddfwriaeth ychwanegol yn ymwneud ag Ardaloedd Cadwraeth, yn enwedig ym Mhont-y-pŵl a Blaenafon. O ganlyniad, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio i addasu gwaith ar adeiladau. Bydd yr Adran Gynllunio bob amser yn falch o gynorthwyo os cyfyd materion o'r fath.

## Dylunio Blaenau Siopau

Wrth ystyried newid i adnewyddu blaen siop, mae’n bwysig ystyried gwelliannau i’r ffasâd yn ei gyfanrwydd, fel arall bydd lloriau uchaf mewn amodau gwael yn tynnu sylw oddi ar y y gwelliannau i flaen y siop.


Dylai dyluniad blaen y siop yn ei dro adlewyrchu: -

a) perthynas blaen y siop â gweddill y ffasâd.

b) perthynas blaen y siop gydag eiddo cyfagos.

c) cyd-destun blaen y siop o fewn y strydlun yn gyffredinol.

## 1. O Amgylch y Siop





**Ffigur 1: O Amgylch Siop neu Fframwaith Siop Nodweddiadol**

Fel rhan annatod o flaen yr adeilad, dylai blaen y siop adlewyrchu cyfnod, arddull a chymeriad yr adeilad. Er bod amrywiaeth gyfoethog o arddulliau blaen siopau traddodiadol, mae eu dyluniadau i gyd yn rhannu’r un elfennau sylfaenol. Mae blaenau siopau traddodiadol wedi'u hamgylchynu neu eu fframio gan fframwaith pensaernïol clasurol. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys pilastrau, consolau, ffasgia, cornis a phendrawst. Y fframwaith hwn yw’r modd o adnabod y siop ac mae’n nodi’n glir y rhaniad rhwng yr eiddo unigol, sy’n gwahanu’r siop o’r lloriau uchaf.

Os yw'r fframwaith traddodiadol yn aros, dylai, os yn bosibl, gael ei atgyweirio neu ei adnewyddu i'w wedd wreiddiol i gynnal dilysrwydd yr adeilad presennol.

Y ffasgia yw'r nodwedd dylunio hanfodol. Dylai'r maint adlewyrchu cyfrannau'r adeilad a dylid ei ddylunio fel rhan annatod o ‘flaen’ y siop. Ni ddylai’r ffasgia byth orgyffwrdd ffenestri’r llawr cyntaf na chuddio manylion yr adeilad fel llin-gyrsiau, ffrisiau neu gornisiau.

## 2. Blaen Siop




**Ffigur 2: Elfennau o Flaen Siop Traddodiadol**

Mae dyluniad blaen siop sy'n ffitio i mewn i'r amgylchyniad yn cynnwys yr elfennau sylfaenol, tebyg: -

a) **Darn o dan y Ffenestr Arddangos** Ardal amddiffynnol yn amrywio o'r ddaear i'r ffenestr wydr.


b) **Ffenestr Siop** - O’r darn o dan y ffenestr arddangos i'r ffasgia. Dylai rhannau mawr o wydr adlewyrchu'r agwedd fertigol ac nid ydynt i raddfa gyda'r adeiladau mwyaf traddodiadol. Dylid defnyddio bariau gwydr fertigol neu fwliynau i roi pwyslais fertigol ar ddarnau mawr o wydr.

c) **Ffenestr Uchel** - Ffurfiwyd gan drawslath wedi’i leoli ar draws lefel uchaf y ffenestr.

d) **Porth** - gall fod wedi ei leoli ar yr ochr neu yn y canol a gall fod yn gilannog. Dylid cadw'r drws gwreiddiol, os yw'n bodoli, yn ei safle a'i arddull wreiddiol i gynnal dilysrwydd yr adeilad. Os oes drws ar wahân i'r lloriau uchaf, dylid ei gadw yn ei safle a'i arddull wreiddiol. Mae'r dewis o ddeunyddiau yn ystyriaeth bwysig wrth ddylunio blaen siop. Wrth ailosod neu adnewyddu blaen siop, defnyddio pren fydd yn ddymunol, yn enwedig pren meddal, y gellir ei baentio, neu ei staenio byddai orau. Mae pren caled wedi ei staenio yn dderbyniol lle gellir profi bod y pren yn dod o ffynhonnell adnewyddadwy sy’n cael ei rheoli. Mae alwminiwm yn dderbyniol os caiff ei baentio neu ei liwio a’i ddefnyddio mewn dyluniad o ansawdd uchel. Nid yw defnyddio acrylig neu blastig yn enwedig UPVC, yn dderbyniol mewn unrhyw ffurf yn yr un modd â theils gwydrog neu gladin carreg sy’n cyflawni ychydig iawn o ran gwella ansawdd gweledol.

Tra bod blaenau siopau yn cynnwys yr un elfennau, mae'n bwysig osgoi defnyddio'r un dyluniad a fyddai'n arwain at blaen siop sy’n undonog ac anniddorol. Wrth ystyried gwelliannau mae yna lawer o wahanol arddulliau i greu blaen diddorol ac mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer gwelliannau masnachol. Gall mynd ati i greu blaen siopau anhraddodiadol ei wneud yn ddiddorol ac mae hyn yn dderbyniol, ar yr amod bod blaenau’r siopau yn draddodiadol o ran graddfa, pwyslais, deunyddiau a dyluniad.

## 3. Ffasâd




**Ffigur 3: Y Ffasâd**

Mae’r ffasâd yr un mor bwysig â blaen y siop o ran gwella golwg adeilad. Bydd dyluniad o ansawdd da ar gyfer blaen siop yn cael ei ddifetha gan ffasâd sydd mewn cyflwr gwael. Dylai unrhyw welliannau i’r ffasâd, anelu at wella cymeriad yr adeilad trwy gadw ei nodweddion gwreiddiol ac adfer y nodweddion hynny a gollwyd. Y prif elfennau y dylid eu hystyried er mwyn gwella'r ffasâd:-

a) **Ffenestri** - Y nodwedd bwysicaf. Dylai ffenestri newydd adlewyrchu cymeriad gwreiddiol yr adeilad a phwysleisio’r elfen fertigol.

b) **To** - Dylid defnyddio manylion a deunyddiau gwreiddiol neu ddewisiadau amgen addas i gadw dilysrwydd yr adeilad.

c) **Gwaith Briciau** - Lle bo angen, dylid adfer y gwaith brics neu'r gwaith rendro i'w gyflwr gwreiddiol.

d) **Cafnau Dŵr** - (yn cynnwys estyll tywydd y ffasgia). Mae'n bwysig bod nwyddau sy’n cael eu newid yn adlewyrchu cymeriad yr adeilad.

Mae'r dewis o ddeunyddiau wrth fynd ati i wella’r ffasâd yn ffactor pwysig sy'n cynnal dilysrwydd yr adeilad a dylid ei ystyried o ran blaen y siop. Dylai ffenestri gael eu disodli neu eu cynnal yn yr arddull wreiddiol. Fel arfer byddai’r rhain yn ffenestri codi neu ffenestri adeiniog a dylid eu creu â fframiau pren. Nid yw defnyddio acrylig yn enwedig UPVC yn dderbyniol ar unrhyw gyfri. Dylai deunydd toi bob amser gyd-fynd â'r defnydd gwreiddiol. Mae cerrig chwarel neu lechi Cymreig a theils concrit tenau â gwead yn dderbyniol os ydynt yn adlewyrchu’r to llechi gwreiddiol. Dylid osgoi defnyddio llechi modern, synthetig wedi eu torri â pheiriant, teils concrit trwchus a theils crwm lliw am eu bod yn creu pwyslais

llorweddol nad yw'n gweddu i gymeriad yr adeilad. Dylai unrhyw deils crib fod wedi eu creu o glai a dylent gadw mor agos â phosibl at unrhyw fanylion gwreiddiol.

Lle bo angen, dylid adnewyddu bricwaith neu waith rendro i'w gyflwr gwreiddiol. Lle mae angen newid bricwaith, dylid defnyddio brics a morter cyfatebol. Dylai'r gwaith pwyntio gyd-fynd â'r arddull bresennol. Wrth rendro, dymunir gorffeniad llyfn, er mae'n bosib y derbynnir gorffeniad â gwead mewn ambell achos. Nid yw spar gweadol, cerrig mân na chladin cerrig yn dderbyniol am mai ychydig iawn y maen nhw'n ei ychwanegu at olwg yr adeilad. Gellir paentio gwaith rendro, a dylai'r dewis o liw rhoi ystyriaeth i flaen y siop a gweddill yr olygfa stryd.

Dylid defnyddio pren wrth drwsio neu amnewid estyll tywydd neu fyrddau ffasgia, naill ai pren caled wedi'i staenio neu bren meddal wedi'i baentio. Pan fydd angen ailosod nwyddau dŵr glaw, dylent fod yn rhai alwminiwm. Gellir defnyddio nwyddau dŵr glaw plastig a bydd hyn yn dderbyniol pan na fyddant yn niweidio cymeriad yr adeilad yn unig.

Dylid cadw'r manylion eraill ar y ffasâd, fel y cornis, siliau, mowldiau ac ati bob amser a hynny cymaint ag y bo modd, a, lle bo hynny'n briodol, eu hadnewyddu neu'u hailosod mewn deunyddiau priodol.

Mae'n bwysig bod cymaint o ofal â phosib yn cael ei gymryd wrth fynd ati i wella'r ffasâd yn ogystal â dyluniad y siop. Rhaid ystyried y ddau gyda'i gilydd fel cynllun cyffredinol i sicrhau y cedwir dilysrwydd yr adeilad a'i fod yn cael ei wella mewn modd cynhwysfawr a thrylwyr.

## 4. Arwyddion

Mae dyluniad a lleoliad arwyddion siopau yn bwysig iawn. Gall hyd yn oed arwyddion bach, sydd wedi'u cynllunio'n wael neu wedi'u lleoli'n wael gael effaith niweidiol ar ansawdd gweledol. Dylai'r arwyddion gynnwys gwybodaeth sylfaenol yn unig, sef enw, rhif a'r hyn sy'n cael ei fasnachu yn y siop, a dylai'r arwydd fod yn ddarllenadwy, ac yn ddiaddurn.

Dylai arwyddion y ffasgia gael eu paentio neu eu gwneud o lythrennau wedi'u torri'n unigol. Dylai'r llythrennau a ddefnyddir ar yr arwydd fod yn rhan o'r manylion pensaernïol a dylent adlewyrchu cymeriad yr adeilad. Nid yw defnyddio arwyddion swmpus neu arwyddion bocs ar y ffasgia yn dderbyniol gan nad ydynt yn gwneud fawr ddim i wella golwg yr adeilad.

Dylai arwyddion sy'n ymwthio allan gael eu paentio a'u creu o lythrennau sydd wedi'u torri'n unigol ar fwrdd arwyddion y dylid naill ai ei osod ar lefel y ffasgia neu ei hongian o fraced. Nid yw'n dderbyniol defnyddio arwyddion bocs sy'n sefyll allan am nad ydynt yn gwneud llawer i olwg yr adeilad. Dewis arall i'r bwrdd arwyddion sy'n sefyll allan yw defnyddio symbolau masnach fel polyn barbwr. Dylai'r symbol fod yn hawdd ei adnabod, gan adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei fasnachu a dylai fod yn gweddu i natur yr adeilad a blaen y siop, a hynny o ran graddfa, lliw, deunyddiau a safle.

Dylai arwyddion y llawr cyntaf gael eu gosod wrth fynedfa'r adeilad a ddefnyddir ar gyfer y llawr hwnnw. Nid yw arwyddion sy'n hongian uwchben y ffasgia neu y tu mewn i ffenestri'r llawr uchaf yn dderbyniol am nad ydynt yn gwneud llawer i olwg yr adeilad. Gellir defnyddio llythrennau wedi eu creu gan stensil, eu hysgythru neu eu paentio ar ffenestri'r lloriau uchaf, os yw arddull a graddfa'r llythrennau yn adlewyrchu cymeriad yr adeilad.

Dylid osgoi defnyddio sticeri neu hysbysebion ar ffenest y siop am ei fod yn peri i flaen yr adeilad fod yn anniben a hyll yr olwg, ond gellir defnyddio baneri a rhubanau wedi eu

paentio neu'u hysgythru ar y gwydr i ddangos enw a phwrpas masnachol yr adeilad a hynny i wella golwg yr adeilad os bydd modd gwneud hynny mewn modd sy'n gweddu i gymeriad yr adeilad. Dylai arddull y baneri neu'r rhubanau ymwneud â chymeriad yr adeilad o ran maint ac arddull.

## 5. Nodweddion Eraill

Mae yna lawer o nodweddion y gellir eu defnyddio i wella golwg yr adeilad a blaen siop. Mewn llawer o ganol trefi traddodiadol mae'r olygfa stryd yn aml yn cynnwys manylion pensaernïol diddorol fel rhwyllau, ffensys coeth, gwaith gwydr diddorol, lloriau o deils mosaig a giât fynedfa o haearn bwrw. Os yw'r nodweddion hyn yn bodoli, dylid eu cadw yn eu cyflwr gwreiddiol. Dylid ystyried ychwanegu unrhyw un o'r nodweddion hyn mewn perthynas â chymeriad cyffredinol yr adeilad a dylid ei gynnwys os yw'n gwella golwg yr adeilad yn gyffredinol.

Dylid osgoi defnyddio caeadau sy'n rholio am eu bod yn creu ymdeimlad o flaenau marw a digymeriad y tu allan i oriau agor gan arwain at effaith negyddol ar olygfa'r stryd. Gall defnyddio bleindiau a chanopïau ychwanegu diddordeb a lliw i olygfa'r stryd; Fodd bynnag, dylid cymryd gofal i sicrhau nad ydynt yn dominyddu blaen adeilad neu stryd.

Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i osodiadau a ffitiadau ar flaen siop. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried patrymau cymhleth ar yr amgylchyn, arddull blaen y siop a'r manylion ar flychau llythyrau, dolenni drysau ac ati, er mwyn sicrhau nad yw blaenau siopau deniadol yn cael eu difetha drwy ddefnyddio manylyn anaddas.

## Casgliad

Wrth fod yn ystyriol yn ystod y camau dylunio cynnar, yn aml gall arwain at gynllun o ansawdd uchel. Derbynnir yn eang bod blaenau traddodiadol yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol ac o ganlyniad, ar werth masnachol eiddo unigol.

## Cyngor Pellach

Gall y Cyngor gynorthwyo gydag ymholiadau cyffredinol ynghylch gofynion caniatâd cynllunio a rheoleiddio adeiladu; ac mae'n argymell cyflwyno ymholiad cynllunio cyn ymgeisio, cyn mynd ati i gyflwyno cais ffurfiol.

Mae'r gwasanaeth cyn ymgeisio, sydd â thâl, yn rhoi cyngor mwy manwl a phwrpasol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol; a allai:

- leihau eich costau a'ch amser yn gyffredinol i ddatblygu prosiect;
- lleihau eich risg drwy nodi a mynd i'r afael â materion posibl yn gynnar; neu
- darganfod atebion eraill sy'n bodloni eich nodau ac osgoi problemau.

Mae'n hynod bwysig ceisio arweiniad os yw eich eiddo yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, Adeilad Rhestredig neu Ardal Gadwraeth. Gallwch gael mynediad i'r gwasanaeth hwn drwy ymweld â gwefan y Cyngor trwy ddilyn: Ffurflenni Cynllunio

Gellir cysylltu â Rheolwyr Datblygu (Swyddogion Cynllunio) drwy e-bost planning@torfaen.gov.uk neu drwy ffonio 01495 762200; ac mae gwybodaeth bellach ar wefan y Cyngor: Caniatâd Cynllunio.

Mae rhagor o wybodaeth am y Rheoliadau Adeiladau ar gael ar wefan y Cyngor: Rheoliadau Adeiladu